Cwestiynau Cyffredin

Pryd byddaf yn dechrau defnyddio'r gwasanaeth?
Dechreuwch ddefnyddio'r bagiau newydd ar unwaith. Ni fyddwn yn casglu plastigion mewn sachau untro yn eich ardal unwaith y byddwch wedi derbyn bag pinc ailddefnyddiadwy.

Sawl bag byddaf yn ei gael?
Rydym wedi gadael UN bag i chi ei ddefnyddio gyda'r daflen hon. Bydd y bag newydd yn dal DWYWAITH cymaint o blastig â'r hen sachau pinc.

Mae angen mwy o fagiau arnaf
Mae'r bagiau newydd yn dal llawer mwy na'r sachau pinc untro. Drwy olchi a gwasgu eich deunyddiau plastig dylai'r rhan fwyaf o breswylwyr fod â digon o le ar gyfer y pythefnos. Fodd bynnag, bydd y cyngor yn ystyried dosbarthu mwy o fagiau ailddefnyddiadwy fel bo angen unwaith y bydd y cynllun wedi'i sefydlu'n llawn. Mae gennych hefyd yr opsiwn o fynd â'ch plastigion rhydd i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref agosaf.

Ni dderbyniais y bagiau. Beth dylwn ei wneud? Os nad ydych wedi derbyn bag ailddefnyddiadwy ar ôl y dyddiad dosbarthu a drefnwyd, ffoniwch 01792 635600 neu e-bostiwch evh@abertawe.gov.uk er mwyn i ni ddosbarthu 1 bag i chi.

Pam ydych chi'n gwneud y newidiadau hyn?

- Drwy gasglu plastigion yn y dull hwn, gellir eu hailgylchu yn y DU sy'n lleihau ôl troed carbon y broses ailgylchu.

- Mae defnyddio un bag y gellir ei ailddefnyddio yn llawer mwy cost-effeithiol na darparu rholiau o sachau plastig untro i breswylwyr.
- Mae gan y bagiau newydd bwysau ynddynt a ddylai leihau'r problemau presennol lle mae sachau untro yn cael eu chwythu o gwmpas y strydoedd ar ddiwrnodau casglu.

Beth ddylwn i ei roi yn y bagiau?
Byddwn OND yn casglu'r pecynnu plastig caletach megis poteli, potiau, tybiau a hambyrddau yn y bagiau newydd ailddefnyddiadwy.

Pa blastigion na ddylwn eu rhoi yn fy mag pinc ailddefnyddiadwy?
Sicrhewch fod unrhyw blastigion tenau megis bagiau siopa plastig, pecynnau creision, a haenau glynu fel y dengys ar y daflen yn cael eu rhoi yn eich sachau du ac nid yn y bag ailddefnyddiadwy. Bydd methu gwneud hyn yn golygu na chesglir eich bag.

Pam na allai roi haenau glynu i mewn?
Er mwyn ailgylchu cymaint o ddeunydd ag y gallwn yn y DU, nid ydym bellach yn gallu casglu pecynnu hyblyg neu 'feddal'. Nid yw'r cyfarpar didoli a ddefnyddir gan gwmnïau ailgylchu yn gallu gweithio os yw'r plastigion mewn sach neu os oes llawer o haenau glynu yn eu mysg. Rhowch y deunyddiau hyn yn eich sachau du.

Beth galla i ei wneud nawr gyda'r plastig hyblyg/haenau glynu nad ydynt yn gallu mynd yn y bag pinc ailddefnyddiadwy?
Ni fydd modd i chi ailgylchu'r deunydd hwn yn y bagiau sy'n cael eu casglu o ymyl y ffordd. Rhowch ddeunydd o'r fath yn y sachau du i'w casglu.

Mae fy magiau wedi mynd ar goll/wedi'u difrodi
Ffoniwch ni ar 635600 am fag newydd am ddim.

Ydy'ch criw yn mynd â'r bagiau gyda nhw?
Fel gyda bagiau gwastraff gardd, bydd y criw yn dychwelyd y bagiau i'r pwynt casglu. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn nodi rhif eich tŷ ar ddwy ochr y bag er mwyn i'r criw wybod o le daeth y bagiau.

Sut byddaf yn sicrhau fy mod yn cael fy magiau yn ôl ar iddynt gael eu casglu?
Ysgrifennwch rif eich tŷ neu eich enw mewn testun mawr ar ochrau gwag y bagiau fel bod y criw casglu'n gwybod lle i'w dychwelyd. Mae pwysau ar waelod y bagiau i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn chwythu i ffwrdd.

A alla i roi'r hen sachau pinc yn y bagiau mwy?
Na allwch oherwydd gwneir y bagiau o'r un defnydd â'r haenau plastig ac nid yw'r cwmnïau ailgylchu yn gallu derbyn y rhain. Mae'n hanfodol cadw'r rhain allan o'r bagiau newydd. Os ydych chi'n rhoi'r sachau pinc yn y bagiau newydd ailddefnyddiadwy, ni chânt eu casglu.

Dw i'n defnyddio casgliadau â chymorth ac ni allaf gario'r bag

Bydd eich casgliadau â chymorth yn parhau yn union yr un ffordd, gyda'r bagiau yn cael eu dychwelyd i'r pwynt casglu.

Does dim lle gennyf yn fy fflat/tŷ
Nid ydym yn gofyn i chi storio mwy o ddeunyddiau nag yr ydych ar hyn o bryd, dim ond eu rhoi mewn bag gwahanol. Mae pwysau ar waelod y bagiau er mwyn eu hatal rhag chwythu i ffwrdd os ydych yn eu storio y tu allan.

Ni chasglwyd fy mag newydd - pam?
Ni chaiff bagiau eu casglu os yw'r hen sachau pinc untro ynddynt. Byddwn yn glynu tag COCH i'r bag newydd yn esbonio pam na chafodd ei gasglu. Bydd yn rhaid i chi naill ai dynnu'r plastigion o'r bag a'i roi allan eto ar gyfer y casgliad arferol nesaf, neu fynd â'r plastigion i'ch Canolfan Ailgylchu agosaf. Ni fyddwn yn dychwelyd i gasglu unrhyw fag â thag coch arno.

Mae tag ambr ar fy mag.
Mae tag ambr yn golygu er eich bod chi wedi rhoi deunyddiau'n rhydd yn y bag, mae yna nifer mawr o eitemau plastig hyblyg/haenau glynu yn y bag o hyd. Er y byddwn yn gwacáu'r bag, gofynnwn i chi roi'r plastig hyblyg/haenau glynu yn eich sach ddu yn y dyfodol. Os bydd eich bag yn cynnwys llawer o blastigion hyblyg/haenau glynu yn y dyfodol, ni chaiff ei gasglu.